Bwletin Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych

Mawrth 2009
Rhifyn 26

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland
Stryd y Ffynnon
Rhuthun LL15 1AF

Ffôn: 01824 702441
Ffacs: 01824 705412

e.bost office@dvsc.co.uk

Newvol - Cwmni cyfyngedig drwy warant 3132487
Elusen Gofrestredig 1054322

Prif Swyddog Gweithredol
John Watkin

Uwch Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Lindsay Haveland

Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych

Yn ddiweddar, bu i Eleanor Burnham AC ymweld â Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych yn eu swyddfa yn Ninbych i gael gwell dealltwriaeth o'r gwaith y mae'r Asiantaeth yn ei ddarparu a'r effaith bositif y gall ei gael mewn perthynas â chadw annibyniaeth y rhai sydd dros 60 oed. Roedd yn gyfarfod hynod fuddiol, ac roedd y tîm yn gwerthfawrogi ei hamser a'i chefnogaeth ac yn teimlo fod ganddi ddealltwriaeth lawn o rôl bwysig yr Asiantaeth.

Nod Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych yw galluogi pobl tros 60 oed i barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain yn saff, cyfforddus, diogel a chynnes. Mae eu gwasanaeth cynghori ac arweiniad yn rhad ac am ddim. Mae'r Tîm Gofal a Thrwsio yn cynghori cleientiaid ar bob agwedd o gynnal cartref, gwaith trwsio ac addasu, trafod y datrysiadau cyllido sydd ar gael. Gall hyn amrywio o fân waith; gosod canllawiau neu gloeon newydd; i waith mwy megis adeiladu ymolchfa sydd wedi ei addasu'n arbennig neu ail-doi. Gall eu Swyddog Diogelwch yn y Cartref, mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Tân, gynnal gwiriad diogelwch yn y cartref. Cynigir gwiriadau budd-dâl er mwyn sicrhau fod y cleientiaid yn derbyn y taliadau budd-dâl cywir a rhoddir cefnogaeth trwy gydol y broses.

Maent yn cynnig Gwasanaeth Addasiadau Ymateb Buan i'r rhai sydd ar fin gadael yr ysbyty er mwyn eu galluogi i ddychwelyd adref i amgylchedd saff a diogel.

Mae Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych wedi derbyn arian i gefnogi Ymgyrch Cartrefi Cynnes a noddir gan Effaith Ynni Cenedlaethol (NEA) ac EAGA i ddarparu cyngor ac arweiniad ar faterion tlodi tanwydd a chynlluniau effeithlonrwydd ynni sy'n cynnwys mesurau gwresogi ac insiwleiddio.

Mae Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych yna i helpu. Dim ond codi'r ffôn sydd ei angen. Mae eu tîm cyfeillgar yno i'ch helpu chi, cysylltwch â hwy ar 01745 814484.

Papur Ymgynghori : CYNIGION AR DDYFODOL CYNGHORAU IECHYD CYMUNEDOL CYMRU

Yn nogfen *Cymru'n Un*, gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad i '*sicrhau bod cynnal cysylltiadau democrataidd yn cael lle canolog yn y GIG*'. Yn unol â'r ymrwymiad hwn mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi'r Papur Ymgynghori uchod.

Mae'r Papur Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi am gyfnod ymgynghori o ddeuddeg wythnos tan **24 Ebrill 2009**. Mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ar wefan Gwasanaeth Gwybodaeth Iechyd Cymru (HOWIS). Dim ond fersiynau Saesneg sydd ar gael o'r Gorchmynion a'r Rheoliadau drafft sydd ar gael ar hyn o bryd; byddant yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac ar gael yn ddiweddarach yn y cyfnod ymgynghori. Yn ystod y cyfnod ymgynghori deuddeg wythnos, cynhelir cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori lleol gyda'r Cynghorau Iechyd Cymuned eu hunain, grwpiau cleifion a grwpiau cyhoeddus, y GIG a chyrff statudol eraill.

Mae CGGSDd wedi gwneud cais i'r Cynulliad am nifer fechan o gopiau caled o'r ddogfen ag os hoffech gopi cysylltwch â Lilwen Roberts CGGSDd ar 01824 702441

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Papur Ymgynghori, cysylltwch â Steve Davies Ffôn: 02920 801427, e-bost: steve.davies20@wales.gsi.gov.uk
Mae'r Papur Ymgynghori hwn ar gael ar ffurf Braille a thâp ar gais.

GOFAL MAETH TAITH NEWYDD

A oes gennych ddiddordeb mewn gofal maeth?
Mae Gweithredu Dros Blant, yr elusen Plant fwyaf yn y DU, wedi sefydlu prosiect newydd llwyddiannus - Taith Newydd - yn ne Cymru gyda dros 40 o Ofalwyr a lefel uchel o sefydlogrwydd i bobl ifanc bregus. Erbyn hyn mae'r Prosiect wedi dod i Ogledd Cymru.
Maent yn cynnig hyfforddiant penigamp a chefnogaeth a sustem talu ffi am sgiliau.

Os hoffech wybod mwy cysylltwch ag unai Mary Ward neu Linda Lewis ar 01492 536091 neu edrychwch ar y wefan www.actionforchildren.org.uk

Adleoliad Sefydliad Esmée Fairbairn

Ar 2il Chwefror 2009 adleolwyd swyddfa Sefydliad Esmée Fairbairn. Dyma'r manylion cyswllt newydd:
Esmée Fairbairn Foundation
Kings Place, 90 York Way
London N1 9AG
Tel 0207 8123 700
Fax 0207 8123 701

Parti Lansio **Difanc** (Gwefan pobl ifanc Sir Ddinbych) 21 Mawrth yn Theatr Pafiliwn Y Rhyl o 2.00pm - 5.00pm. Os hoffech fynychu, dod a stondin arddangos neu os oes arnoch eisiau rhagor o wybodaeth cysylltwch â Jeff Harrison ar **01824 708204** neu **706181 / jeff.harrison@denbighshire.gov.uk**

Hyfforddiant MIND Dyffryn Clwyd
Ionawr - Gorffennaf 2009

Hyfforddiant ASIST Cost: £150 - £50 os heb gyflog	
26 a 27 Mawrth	**Plas Hafod, Yr Wyddgrug**
27 a 28 Ebrill	**Clwb Pel Droed Wrecsam**
13 a 14 Mai	**Corwen**
22 a 23 Mehefin	**Glasdir, Llanrwst**

Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Cost: £100 Statudol £75 Gwirfoddol	
9 a 13 Mawrth	**Cyffordd Llandudno**
2 a 3 Ebrill	**Llanrwst**
21 a 22 Mai	**Corwen**
11 a 12 Mehefin	**Eirianfa Dinbych**

I sicrhau eich lle neu i gael manylion pellach cysylltwch â :-
Carol Evans, Rheolwr, Mind Dyffryn Clwyd, Gwasanaeth Gwledig Allanol , 4 Lôn Rosemary, Dinbych LL16 3TT Ffôn: 01745 812461 **Ebost: mindrural@aol.com**

Am ragor o fanylion am y cyrsiau gwelir www.valeofclwydmind.org.uk am ASIST neu www.mhfa-wales.org.uk am Gymorth Cyntaf Iechyd Meddwl

Mae **Cynnydd**, Fforwm y Bwrdd Cyfiawnder i Gymru, yn elusen sy'n darparu hyfforddiant i Dimau Troseddau'r Ifanc ag unrhyw un arall sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phobl ifanc sy'n ymglymedig a throseddu'r ifanc neu sy'n ceisio atal pobl ifanc rhag troseddu.

Mae'r elusen yn ceisio dod o hyd i fanylion am ynrhyw fudiadau gwirfoddol yng Nghonwy / Sir Ddinbych sy'n gweithio â phobl ifanc sydd wedi troseddu neu mewn perygl o droseddu. Mae angen yr wybodaeth am ddau reswm – i roi gwybod iddynt am hyfforddiant, ag i ofyn os hoffent redeg gweithdy neu gynnig siaradwr gwadd yn un o'u cynadleddau neu ddyddiau astudio. Byddai'n gyfle i fudiadau godi ymwybyddiaeth am eu gwaith.

Cynhelir cynhadledd flynyddol Cynnydd yn Llandrindod Ebrill – 1af a'r 2il Gweler www.cynydd.net am y manylion.

Bydd Cynnydd hefyd yn cynnal dyddiau astudio yn Ngogledd a De Cymru yn yr Hydref ag ar hyn o bryd yn dechrau ar y gwaith o roi agenda at ei gilydd. Os oes gennych brosiect diddorol yr hoffech ei rannu ag eraill cysylltwch â Pat Dunmore Catch22 ar 01792 648833 neu e.bost pat.dunmore@catch-22.org.uk. Mae Pat ar grŵp llywio Cynnydd yn cynrychioli'r sector gwirfoddol.

Cynllun i helpu'r rhai sy'n wynebu adfeddiant eu cartref

A ydych yn berchennog tŷ, yn ei chael yn anodd talu'r morgais, ac mewn perygl o adfeddiant? Os ydych, mae yna gynllun cenedlaethol a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a all fod o gymorth.

Fe allai'r cynllun helpu mewn un o ddwy ffordd. Unai drwy brynu ecwiti yn eich eiddo neu ei brynu'n gyfan gwbl a chaniatáu i chi ei rentu oddi wrth Gymdeithas Tai.

Nid Achubiaeth Morgais fydd yr opsiwn orau i bawb, er hyn 'rydym yn argymell, fel cam cyntaf, eich bod yn siarad ag un o'r cysylltiadau isod i gael cyngor. Rhoddir blaenoriaeth i deuluoedd a phobl sy'n byw mewn tai sydd wedi eu haddasu'n arbennig, neu fyddai'n flaenoriaeth angen os ydynt yn cael eu gwneud yn ddigartref. Os oes gennych ddiddordeb yn y cynllun rhaid gweithredu ar frys i weld os ydych yn cyrraedd y meini prawf ag i roi digon o amser i gwblhau cais am yr arian.

Dylid cysylltu ag unai Tîm Digartrefedd y Cyngor, yn 64, Brighton Road, Y Rhyl yn y sesiynau 'drop in' dydd Llun i ddydd Gwener (10.00 - 11.00 am) neu i wneud apwyntiad ffoniwch 01824 712939. Mae'r Swyddog Opsiynau Tai yn rhoi cyngor hefyd yn Neuadd y Sir, Rhuthun a gellir gwneud apwyntiad ar 01824 706271. Ar y llaw arall, mae cyngor annibynnol ar gael gan Shelter Cymru ar 01745 361444 neu Gyngor ar Bopeth Dinbych ar 01745 814336 neu'r Rhyl ar 01745 334568.

Swyddogion Asesu Anghenion Gofalwyr

Mae NEWCIS wedi penodi dwy aelod newydd i'w staff i gynnal Asesiadau Anghenion Gofalwyr yn Sir Ddinbych. Byddant yn ymgymryd ag asesiadau holistig o anghenion Gofalwyr pan mae Gofalwr yn darparu gofal rheolaidd a sylweddol i unigolyn, ag yn ystyried gwasanaethau sydd ar gael i gyfarfod yr anghenion hynny. Mae'r Asesiad Gofalwyr yn rhoi cyfle i Ofalwyr i ddweud wrth NEWCIS am y pethau fyddai'n gwneud eu rôl gofalu yn rhwyddach. Gellir trefnu'r asesiadau drwy Weithiwr Cymdeithasol neu drwy'r Tîm Cyswllt Cyntaf Gwasanaethau Cymdeithasol 01824 712900/712448. Yn ogystal gellir cysylltu â NEWCIS am gyngor a chefnogaeth.

Bydd Clara Jones yn gweithio yng Ngogledd Sir Ddinbych o swyddfa NEWCIS yn Morfa Clwyd, Marsh Road, Y Rhyl. Mae Clara wedi gweithio i Prospects for People with Learning Disabilities a Chymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru. Mae hefyd yn gweithio fel Hwylusydd Cynllunio'n Seiliedig ar y Person ar ei liwt ei hun.

Bydd Iona Crompton yn gweithio yn Ne Sir Ddinbych o swyddfa yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Yn y gorffennol mae Iona wedi gweithio i Yrfaoedd Cymru, Coleg Cymunedol Dinbych, ag am y tair blynedd diwethaf i Gymorth i Ferched Glyndŵr yng Nghanolfan Blas ar Fyw Corwen.

Gellir cysylltu â Clara a Iona drwy NEWCIS ar 01745 331181

Cyflwyniad i Gydraddoldeb ag Amrywiaeth 27 Mawrth 2009

Lleoliad :Rhyl
Cost: **A**£125 **B** £155 **C** £185

Mae'r cwrs ar gyfer rhai sydd eisiau sicrhau gwell dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac i helpu unigolion i annog cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle

Amcanion dysgu:
Ar ddiwedd y cwrs byddwch yn gallu:

- Egluro beth a olygir wrth sôn am gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Rhoi esiamplau i ddangos pam fod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn bwysig
- Adnabod gwahanol fathau o anffafriaeth
- Adnabod eich rhagfarn a stereoteipiau eich hunain
- Paratoi cynllun gweithredu i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eich gweithle eich hun

Am ragor o fanylion e.bost training@wcva.org.uk neu ffoniwch lein gymorth CGGC ar 0800 2888 329.

CWRS HYFFORDDIANT

ADDAS AR GYFER NAWDD

Dydd Iau 23/04/09 Canolfan Naylor Leyland, Rhuthun 10.00 – 3.30

A ydych erioed wedi cael cais am nawdd wedi'i wrthod neu wedi ystyried beth sydd ei angen i greu cais llwyddiannus? Mae llawer o geisiadau am nawdd yn methu oherwydd diffyg paratoi digonol neu oherwydd nad ydynt yn gweddu i feini prawf y cyllidwr.

Bydd y cwrs hwn yn archwilio pob agwedd ar baratoi cais am nawdd a bydd yn cynnig gwybodaeth ymarferol ar nodi'r ffynonellau nawdd mwyaf addas ar gyfer eich mudiad. Bydd y cwrs hefyd yn cynnwys trosolwg o'r hinsawdd cyllido presennol yng Nghymru ac yn eich cynorthwyo i ddeall yr hyn sy'n dylanwadu ar gyllidwyr. Mae'r cwrs ar gyfer y rheiny sy'n newydd i godi arian neu'r rheiny sy'n dymuno dysgu mwy am brosesau codi arian.

Hyfforddwr: Emyr B Williams

Cost: £20.00 I gofrestru:

☎ Bronwen Isaac 01824 702441

Wythnos Addysg Oedolion 9 Mai - 16 Mai 2009

Wythnos Dysgu Oedolion yw'r Ŵyl fwyaf yn y DU ag yn ddathliad o ddysgu oedolion, a gydlynir gan NIACE Dysgu Cymru ag a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r wythnos yn ymgyrch sy'n cyfuno hyrwyddo cenedlaethol â gweithredu lleol. Mae'r ymgyrch yn rhoi cyfle i oedolion fentro i ddysgu rhywbeth newydd drwy gymryd rhan yn un o'r cannoedd o sesiynau blasu a gynhelir, am ddim, ar hyd a lled Cymru yn ystod yr wythnos. Mae hefyd yn gyfle i ddarparwyr dysgu i arddangos eu darpariaeth. Os ydych yn ddarparwr byddwch eisiau gwneud y gorau o'r Wythnos Ddysgu drwy drefnu eich digwyddiadau arbennig eich hunain. Am ragor o wybodaeth a llawer mwy o fanylion cysylltwch â stephen.martin@niacedc.org.uk Ymholiadau cyffredinol 0292 0370900 www.niacedc.org.uk

Er diben **Strategaeth Trafaelwyr Sipsi**, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio casglu cymaint o wybodaeth â phosib mewn cysylltiad ag ymchwil/ gwaith sydd wedi ei wneud neu'n cael ei wneud gyda Thrafaelwyr Sipsi gan fudiadau elusennol neu wirfoddol. Os ydych yn gallu helpu cysylltwch â Gareth Thomas, Uned Cynhwysiad Llywodraeth Cynulliad Cymru Ffôn: 01685 729658 Ebost: Gareth.Thomas5@Wales.GSI.Gov.UK

Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadarnhau cynaladwyedd trydydd sector i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod ailstrwythuro GIG (2009/10) Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cadarnhau fod trefniadau yn eu lle i'r trydydd sector yn ystod cyfnod pontio ailstrwythuro GIG ag fod ymrwymiadau presennol gyda mudiadau trydydd sector i'w sicrhau o Ebrill 1af 2009 ymlaen. Cadarnhaodd Paul Williams, Pennaeth DHSS, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Phrif Weithredwr GIG Cymru, mewn llythyr i Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd ar 19eg Rhagfyr, y dylai ymrwymiadau cyllidol presennol gael eu cynnal a'u manylu yn natganiadau etifeddiaeth y mudiad. Lle mae trefniadau o dan gytundeb gyda'r trydydd sector am ddarpariaeth gwasanaeth yn barod i'w hadnewyddu, fe ddylent o leiaf, gael eu cario ymlaen am flwyddyn ymhellach i sicrhau dilyniant yn ystod y trosglwyddiad i'r cyrff newydd. Yn ogystal, ariennir swyddi Hwyluswyr Adeiladu Pontydd Cadarn yn llawn tan 31Mawrth 2010. Os hoffech fanylion pellach cysylltwch â mnasrat@wcva.org.uk neu ffoniwch 02920 431712

Bowel Screening Wales / Sgrinio Coluddion Cymru

'Sgrinio Coluddion Cymru' yw'r rhaglen sgrinio gyntaf i gynnwys dynion a menywod. Cafodd ei lansio'n swyddogol ar 28 Hydref 2008, a'i nod yw lleihau o 15 y cant erbyn 2020 y nifer o bobl sy'n marw o ganser y coluddyn.

Cafodd y rhaglen ei sefydlu gan Isadran Gwasanaethau Sgrinio Ymddiriedolaeth GIG Felindre, a'r Isadran sy'n ei rheoli hefyd. Bydd yn cael ei chyflwyno'n raddol ac yn gwahodd pobl 60-69 oed yn y lle cyntaf. Bydd y rhaglen yn cael ei hymestyn erbyn 2015 i gynnwys pob dyn a menyw 50-74 oed.

Bydd y prawf sgrinio'n golygu gwneud prawf yn y cartref. Bydd y bobl sy'n gymwys yn cael y *pecyn prawf* yn y post. Byddan nhw'n cael eu gwahodd i wneud y prawf yn breifat yn eu cartrefi eu hunain, gan ei bostio'n ôl am ddim. Bydd y canlyniadau'n eu cyrraedd mewn wythnos neu ddwy.

Dywedodd Hannah Jones, un o Swyddogion Hyrwyddo Sgrinio'r *Gwasanaethau Sgrinio* yn Ymddiriedolaeth Felindre: "Canser y Coluddyn, sydd hefyd yn cael ei alw'n Ganser Colorectol, yw'r trydydd canser mwyaf cyffredin sy'n effeithio ar ddynion a menywod yng Nghymru. Mae dros 2000 o achosion newydd o'r canser bob blwyddyn. O'r holl bobl sy'n marw o ganser, hwn yw'r ail achos mwyaf cyffredin. Mae perygl i tua un o bob 20 menyw ac un o bob 18 o ddynion gael diagnosis o ganser y coluddyn yn ystod eu hoes.

"Mae tystiolaeth o waith ymchwil yn dangos bod sgrinio'n gallu lleihau nifer y marwolaethau. Ein gobaith yw y bydd pobl yn manteisio ar y cyfle i wneud y prawf yma am ddim – gallai achub eu bywydau."

Os hoffai eich grŵp neu fudiad glywed sgwrs ynglŷn ag unrhyw un o'r rhaglenni sgrinio (yn cynnwys Bron Brawf Cymru, Sgrinio Serfigol a Sgrinio Coluddion Cymru), cysylltwch â naill ai Hannah Jones neu Heather Ramessur-Marsden, Swyddogion Hyrwyddo Sgrinio yng Ngogledd Cymru, ar 01492 863541 neu e-bostiwch hannahjones@velindre-tr.wales.nhs.uk.

Am fwy o wybodaeth am Sgrinio Coluddion Cymru, ewch i www.bowelscreeningwales.org.uk neu ffoniwch ni am ddim ar y llinell gymorth 0800 2943370.

Gwesty Oriel House, Ffordd Dinbych Uchaf Llanelwy LL17 0LW
Dyddiau Iau
18.00 – 20.30
Bydd y rhaglen ymlaen am chwe wythnos yn olynnol
23/04/09, 30/04/09, 07/05/09, 14/05/09, 21/05/09, 28/05/09
Rhagor o fanylion gan Cydlynydd Rhaglen Cleifion Arbenigol, Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd, Ffordd Campbell, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1HU
Ffôn: 01286 674236
Ffacs: 01286 674197

Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl Cymru Gyfan

Mae Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl Cymru Gyfan yn gweithio ar ddatblygu **Cronfa Ddata Mentrau** gyda'r bwriad o rannu ymarferion gweithiol llwyddiannus ag astudiaethau achosion gyda phawb sy'n gweithio i hyrwyddo iechyd meddwl.

Bydd y rhai sy'n ymuno, ag yn llwytho i fyny eu straeon, yn gallu cael syniadau ag ysbrydoliaeth gan weithwyr proffesiynol hyrwyddo iechyd meddwl. Bydd hefyd yn ffordd bwysig iawn i rannu gwersi gyda chydweithwyr ar draws Cymru gyfan. Anelir y Gronfa Ddata at bawb sy'n cyfrannu i iechyd meddwl o feddygon i athrawon, gweithwyr cymdeithasol i nyrsys.

I ymuno â'r prosiect ardderchog yma ag i gael budd o ddysgu oddi wrth brofiadau eraill cysylltwch â Kelly Mason Cydlynydd Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl Cymru Gyfan Ffôn: 029 2082 7627 neu ymwelwch â'r wefan http://www.publicmentalhealth.org/ a chwblhau ffurflen fer.

Mae canllawiau i ffynonellau ariannol i grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol yn cynnwys mentrau ICT wedi'i cynnwys ar wefan Cymunedau@Eigilydd. Felly, os ydydch yn ceisio dod o hyd i arian efallai mai dyma'r wefan i chi http://www.communitiesatone.org/alternative-funding/
Bydd Cymunedau@EiGilydd hefyd yn paratoi cylchlythyrau bwletin gyda'r newyddion ariannu diwleddara felly cofiwch ymweld yn aml.

Am fanylion pellach cysylltwch â **Debbie Holmes** Canolfan Cydweithredol Cymru Ffôn symudol : 07887871351 Ebost: debra.holmes@walescoop.com

SEMINAR SHELTER CYMRU

Dydd Iau 12 Mawrth 09 Gwesty Oriel House, Llanelwy

Mae Shelter Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu byddai dod a thai gwag yng Nghymru yn ôl i ddefnydd yn gyfraniad gwerthfawr i gyflenwad tai fforddiadwy mewn ardaloedd lleol ynghyd â gwneud synnwyr o safbwynt economaidd ac adfywio ehangach.

Bydd y seminar yn ystyried gwneud defnydd o dai gwag yng Nghymru a'r camau a'r ymrwymiadau sydd eu hangen i wella defnydd yr adnodd hwn. Bydd trafodaethau a syniadau ymarferol ynghylch sut mae llywodraeth leol a phartneriaid allweddol - gan gynnwys cymdeithasau tai, y trydydd sector, perchnogion a datblygwyr - yn gallu gwneud mwy gyda thai gwag fel rhan o'u strategaethau ar gyfer darparu tai fforddiadwy mewn cymunedau ar draws Cymru. Bydd cyfraniad y rhai hynny sy'n bresennol yn cynorthwyo datblygiad Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y Cynulliad ar dai gwag (i'w gyhoeddi yn hwyrach eleni). I sicrhau lle ar y seminar ewch i wefan Shelter Cymru http://www.sheltercymru.org.uk/shelter/training/conf.asp

Yng nghyfarfod **Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles** ar 14eg Ionawr, cafwyd cyflwyniadau gan Sandra Jones (Cyngor Sir Ddinbych) ar "Passion for Life" a Holly Evans (Cydlynydd Fframwaith Asesiad Cyffredin) ar y rhaglen beilot yng Nghonwy a Sir Ddinbych i blant a phobl ifanc. Drwy'r ddau gyflwyniad amlygwyd buddiannau gweithio gyda'n gilydd i ddarparu gwasanaethau holistig i grwpiau penodol.

Mae "Passion for Life" yn brosiect o Sweden, sy'n anelu i awdurdodi pobl hŷn i gael gwell ansawdd bywyd, ag yn Sir Ddinbych bydd yn rhedeg fel prosiect peilot am flwyddyn. Bydd grŵp o 10 o bobl hŷn yn cael eu recriwtio i fynychu Life Café pob dau fis, yn ymdrin â gwahanol themâu bob tro. Gwerthusir y cynllun yn wastad. Os oes rhywun â diddordeb cysylltwch â Sandra Jones (Carroll gynt) ar 01824 708373, sandra.c.jones@denbighshire.gov.uk.

Mae cynllun peilot Conwy a Sir Ddinbych o'r Fframwaith Asesiad Cyffredin bron ar ben. Y nod oedd gweithio mewn partneriaeth i atal plant a phobl ifanc rhag cyrraedd trothwy Amddiffyn Plant. Mae dros 200 o bobl, o fudiadau pur wahanol, yn cynnwys mudiadau gwirfoddol, cyrff iechyd, yr heddlu a Gyrfaoedd Cymru wedi'u hyfforddi i helpu teuluoedd sy'n mynd drwy gyfnod anodd. Gobeithir bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dechrau'r cynllun yng ngweddill Cymru, gan fod gweithwyr yn yr ardal yma yn credu fod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi elwa'n fawr o'r ffordd arloesol yma o weithio, a'r gweithwyr eu hunain wedi teimlo fod cefnogaeth iddynt mewn sefyllfaoedd heriol. Gellir cysylltu â Holly ar: (01492 575768, neu 07717 543310, holly.evans@conwy.gov.uk.

Gofynnwyd i bawb oedd yn bresennol i rannu gwybodaeth am y gwasanaeth mae eu grŵp yn ddarparu, er mwyn agor trafodaeth â mudiadau eraill ynglyn â rhannu adnoddau ag arbenigedd. Cafwyd trafodaeth fywiog. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei gasglu a'i deipio ag ar gael i unrhyw un sydd â diddordeb.

Bydd y cyfarfod rhwydwaith nesaf ar ddydd **Mercher 8fed Ebrill 2009**, ar y themâu gwerthuso a monitro. Cynhelir pob cyfarfod 2009/2010 yng Nghanolfan Naylor Leyland, yn dechrau am 10.15 am, ag yn gorffen gyda chinio.

Dyddiadau'r cyfarfodydd eraill fydd: Dydd Mercher 1af Gorffennaf, Dydd Mercher 14eg Hydref a Dydd Mercher 13eg Ionawr 2010.

MYNEGI BARN AM GYNLLUN CYDRADDOLDEB CYNGOR SIR DDINBYCH - Yn Sir Ddinbych rydym yn cymryd cydraddoldeb yn ddifrifol ac mae hi'n bwysig i ni arwain trwy esiampl fel cyflogwr mawr ac fel darparwr gwasanaethau. Rydym wedi datblygu cynllun cydraddoldeb newydd am 2009 - 2011 a charem wybod eich barn amdano. Bydd y cynllun yn cynnwys materion hil, anabledd, cenedl, oed, tueddiad rhywiol, crefydd a chred.

Mae ein cynllun cydraddoldeb yn dangos sut y byddwn yn gwneud pethau yn decach a mwy cyfartal i bawb, yn y gwaith a thrwy ddarparu gwasanaethau. Rydym angen canfod a oes unrhyw fwlch yn y gwasanaethau a ddarparwn i chi. Bydd eich sylwadau yn dylanwadu ar y cynllun a chaiff ei drin yn gyfrinachol.

Gallwch anfon eich sylwadau trwy lenwi Holiadur sydd ar gael ar wefan Sir Ddinbych, www.denbighshire.gov.uk mewn Llyfrgelloedd, Siopau Un Alwad neu ffoniwch Karen Beattie, Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol, ar 01745 888746, Fax 01824 707446, e-bostiwch policyunit@denbighshire.gov.uk erbyn 27 Mawrth 2009.